**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (CILFAN YNG NGLANDYFI, CEREDIGION) (CYFYNGU AR AROS) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyfyngu ar aros gan gerbydau ar y darn o'r gilfan ar ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 1,193 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1139 sy'n arwain at Gwm Llyfnant hyd at bwynt 1,257 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno yng Nglandyfi, Ceredigion. Cyfyngir ar aros i gyfnod o 4 awr ar y mwyaf, gydag 8 awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darn o'r gilfan a bennir.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 16 Mawrth 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Machynlleth, Heol Maengwyn, Machynlleth, SY20 8DY. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1487974.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1487974, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod erbyn 6 Ebrill 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hynny pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**THE A487 TRUNK ROAD (LAY-BY AT GLANDYFI, CEREDIGION) (RESTRICTION OF WAITING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to restrict vehicles from waiting on the length of the lay-by on the north-western side of the A487 trunk road that extends from a point 1,193 metres south-west of the centre-point of its junction with the C1139 leading to Cwm Llyfnant to a point 1,257 metres south-west of the centre-point of that junction at Glandyfi, Ceredigion. Waiting will be restricted to a maximum period of 4 hours which is to be separated by an interval of at least 8 hours from any previous period of waiting by the same vehicle on the same day on the length of the lay-by specified.

During a period of 21 days from 16 March 2022, a copy of the proposed Order, plan and the Statement of Reasons for making the Order may be inspected, free of charge, at Machynlleth Library, Heol Maengwyn, Machynlleth SY20 8DY. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge by writing to Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1487974.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1487974, must be sent by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales or in writing to the address below by 6 April 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y Plan a'r Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd a/neu eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1487974.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders and/or obtained in larger print free of charge by writing to Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1487974.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government